# Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf

# Calendr ar gyfer Hyfforddiant Anableddau Dysgu

## Ebrill 2024-
## Medi 2024

## Tabl o Gyrsiau Hyfforddi

| Cwrs | Hyfforddwr/wraig | Rhif | Trefnydd |
|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Epilepsi | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf | 7 | Ceri Watts |
| Dementia yng Nghyd-destun Anabledd Dysgu | Tony Waters | 8 | Ceri Watts |
| Cyfathrebu Cynhwysol | Carfan Therapi Iaith a Lleferydd | 9 | Ceri Watts |
| Bwyta ac Yfed â Chymorth | Carfan Therapi Iaith a Lleferydd | 10 | Ceri Watts |
| Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth - ASD Lefel 1 yn flaenorol | Helen Robinson | 11 | Ceri Watts |
| Strategaethau Cymorth Gweledol (ASD Lefel 2 gynt) | Helen Robinson | 12 | Ceri Watts |
| Datblygu Sgriptiau Cymdeithasol gyda phobl sydd ag Awtistiaeth | Helen Robinson | 13 | Ceri Watts |
| Ymwybyddiaeth o Ddiabetes | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf | 14 | Ceri Watts |
| **Gwybodaeth Am Becynnau E-Ddysgu** | | | |
| Bwyta ac Yfed â Chymorth | Therapydd Lleferydd ac Iaith | 16-17 | Ceri Watts |
| **Hyfforddiant Diogelu Oedolion Cwm Taf** | | | |
| Ymholiadau Adran 126 | I'w gadarnhau | 19 | Jillian Davies |
| Cwrs gloywi Diogelu Lefel 2 ar gyfer Staff Gofal Uniongyrchol | Carfan FfCCh | 20 | Jillian Davies |
| Rolau a chyfrifoldebau diogelu sy'n canolbwyntio ar unigolion a'r unigolyn – Lefel 3 | Grŵp Diogelu Hyfforddiant Cwm Taf | 21 | Jillian Davies |
| Ffurflen Cadw Lle | | | |

**Croeso** i'r rhifyn yma o amserlen hyfforddiant Gwasanaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf ar gyfer Ebrill 2024–Medi 2024.

**Dyma brif nodweddion y rhaglen:**

- Mae'r rhaglen wedi'i chyhoeddi mewn fformat sy'n galluogi rheolwyr i drefnu eu bod yn rhoi gwybod i staff am gyrsiau a allai fod o fudd iddyn nhw.
- Mae'r cyrsiau wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor.
- Yn ogystal â hynny, mae calendr ar ddiwedd yr amserlen sy'n dangos pryd y caiff pob sesiwn hyfforddiant ei gynnal.
- Bydd modd i chi enwebu staff **bedwar mis** ymlaen llaw. Serch hynny, nodwch mai dim ond 5 wythnos ymlaen llaw y byddwch chi'n derbyn cadarnhad o leoedd.
- Rydyn ni wedi cyhoeddi dyddiadau'r achlysuron sydd ar ddiwedd y cyfnod er gwybodaeth yn unig. Nod hyn yw eich helpu i drefnu amserlenni ac ati.
- Mae'r hyfforddiant yma ar gael i staff sy'n gweithio ledled Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful ac eithrio bod manylion y cwrs yn nodi fel arall.
- Pe hoffech chi weld hyfforddiant sy'n ymdrin ag unrhyw faterion penodol yn rhan o unrhyw raglen yn y dyfodol, anfonwch e-bost at y swyddog hyfforddi perthnasol:
    - Ceri Watts – ymholiadau mewn perthynas ag anableddau dysgu Ceri.Watts@rctcbc.gov.uk
    - Am ymholiadau mewn perthynas â diogelu neu gyrsiau galwedigaethol, e-bostiwch Jillian.Davies@rctcbc.gov.uk.
    - Am ymholiadau mewn perthynas â datblygiad rheolwyr, e-bostiwch Ceri.Watts@rctcbc.gov.uk.
- Nodwch fod cyfyngiad ar nifer y sesiynau hyfforddiant Iechyd a Diogelwch y mae modd i ni eu cynnal o dan amodau'r grant. Mae hyn oherwydd bod y pynciau yma'n gyfrifoldeb statudol ar y cyflogwr.
- Mae'r holl hyfforddiant ar yr amserlen yma'n parhau i fod am ddim.

- Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig bellach wedi trosglwyddo i fformat digidol.

## Proses cadw lle

Pe hoffech chi fynd ar unrhyw un o gyrsiau'r rhaglen yma, llenwch y ffurflen cadw lle electronig a gafodd ei hanfon â'r amserlen gan nodi'n glir eich cwrs a'r dyddiad hoffech chi fynychu. Pe hoffech chi gael fersiwn o'r ffurflen yma drwy e-bost, neu os oes gyda chi unrhyw ymholiadau, e-bostiwch Hannah.K.Johnson@rctcbc.gov.uk

Edrychwch ar y "**Gynulleidfa Darged**" yn ofalus cyn enwebu unrhyw un fel bod modd i bobl fynd ar y cyrsiau sy'n eu gweddu nhw orau. Mae rhai o'r cyrsiau ar gyfer pobl sy'n gweithio yn Rhondda Cynon Taf neu ym Merthyr Tudful yn unig. Mae'n bwysig felly eich bod chi'n gwirio manylion y cwrs cyn enwebu rhywun i fynychu.

Mae llawer o'n cyrsiau yn boblogaidd iawn a chaiff llefydd arnyn nhw eu cadw'n gyflym iawn fel arfer. Peidiwch ag anfon staff ar gwrs maen nhw wedi bod arno'n barod, ac eithrio ei fod yn gyfle datblygu parhaus.

Os bydd aelod newydd o staff yn ymuno â chi, dylech chi holi a ydyn nhw wedi mynd ar gyrsiau wedi'u cynnal gan y Garfan Hyfforddi a Datblygu gyda'u cyflogwyr blaenorol.

Rhaid i chi **enwi** aelod o staff wrth lenwi ffurflen cadw lle. Does dim modd i ni gadw lle i staff sydd heb gael eu henwi. Mae hyn oherwydd does dim modd i ni nodi'r data ar ein system gyfrifiadurol a chadw lle heb yr wybodaeth yma.

Unwaith i chi gwblhau'r ffurflen, anfonwch hi drwy e-bost at Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / HyfforddiantGofalCymdeithasol@rctcbc.gov.uk

Rydyn ni angen cyfeiriad e-bost y sawl sy'n cymryd rhan er mwyn iddo/iddi ymuno â'r hyfforddiant.

Rydyn ni'n gweithio ar system newydd i sicrhau bod rheolwyr yn cael gwybod am leoedd sydd wedi cael eu dyrannu. Os oes angen i chi wirio a yw staff wedi cael lle, e-bostiwch y Garfan Hyfforddiant: HyfforddiantGofalCymdeithasol@rctcbc.gov.uk

Os oes mwy o geisiadau'n dod i law na nifer y lleoedd, bydd enwau'r rheiny sy heb gael lle yn cael eu nodi ar restr wrth gefn.

Bydd cadarnhad yn cael ei anfon i'r sefydliad sydd wedi cadw lle ar y cwrs hyfforddi pum wythnos cyn yr achlysur. Y rheolwyr sy'n gyfrifol am rannu'r wybodaeth yma â'r staff cyn y cwrs. Byddwn ni'n anfon rhaglen y cwrs yn gadarnhad terfynol ein bod ni wedi cadw lle i unigolion ar y cwrs hyfforddi. Os fydd dim digon o bobl wedi cofrestru ar gyfer cwrs, efallai bydd y cyfnod amser yn newid.

Os bydd angen i chi anfon aelod arall o staff ar y cwrs oherwydd salwch neu absenoldeb, rhowch wybod i aelod o'r garfan weinyddol cyn gynted ag y bo modd.

Dylech chi sicrhau bod pob aelod o staff sy'n cael hyfforddiant wedi dilyn y weithdrefn cadw lle yma. Fydd dim modd i staff sydd heb eu cofrestru gymryd rhan.

Os oes unrhyw ymholiadau gyda chi mewn perthynas â'r broses cadw lle, cysylltwch â'r swyddog hyfforddi priodol.

Byddwn ni ond yn derbyn cais i ganslo lle ar gwrs 7 diwrnod cyn dyddiad yr hyfforddiant. Os daw'r cais i law i ganslo'r lle ar ôl y dyddiad yma, caiff nodyn 'heb ei fynychu' ei roi yn erbyn enw'r unigolyn. Y rheswm dros hyn yw oherwydd y mae rhaid i'r adran hyfforddi gael digon o amser i ail-hysbysebu'r hyfforddiant er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol, ac er mwyn sicrhau fod yr hyfforddiant ddim yn cael ei wastraffu.

## Materion Hygyrchedd

Wrth gadw lle ar gwrs wedi'i gynnal gan Garfan Hyfforddi a Datblygu Cwm Taf, sicrhewch eich bod chi'n rhoi gwybod i ni am unrhyw anghenion o ran hygyrchedd digidol. Byddwn ni'n ceisio'n gorau i'w diwallu nhw (nam ar y clyw, nam ar y golwg, ac ati).

**Wrth gadw lle, rhowch wybod i ni am unrhyw staff sydd â'r canlynol:**

- Cadair olwyn
- Problemau o ran symudedd
- Problemau o ran clywed neu weld
- Problemau o ran llythrennedd a rhifedd
- Problemau y gallai'r amgylchedd dysgu effeithio arnyn nhw neu eu gwaethygu (e.e. epilepsi)
- Problemau sy'n ymwneud â llawdriniaeth neu anaf diweddar (e.e. problemau cefn)
- Anghenion dysgu eraill a allai eu hatal nhw rhag cyfranogi'n llawn

Mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi gwybod i'r garfan weinyddu am hyn pan fyddwch chi'n cadw lle. Bydd hyn yn ein galluogi ni i rannu'r wybodaeth â'r hyfforddwyr a theilwra'r sesiynau fel eu bod yn diwallu anghenion y dysgwyr.

## Cymryd rhan mewn hyfforddiant ar blatfform rhithwir

- Er mwyn ymuno â'r hyfforddiant, defnyddiwch y ddolen a gafodd ei hanfon drwy e-bost gan weinyddwr y cwrs.
- Mae'n bosibl y byddwch chi wedi cael deunyddiau cyn y cwrs. Dylid eu darllen i baratoi ar gyfer y sesiwn.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ymuno â ni gan ddefnyddio dyfais electronig sy'n gweithio, e.e. gliniadur neu gyfrifiadur personol. Ceisiwch ymgyfarwyddo â'r platfform hyfforddi cyn yr achlysur.
- **Gwnewch yn siŵr bod eich camera wedi'i droi ymlaen trwy gydol y sesiwn, a bod eich meicroffon ar 'mute'**, ac eithrio y cewch chi'ch gofyn i wneud fel arall (e.e. yn ystod sesiynau grŵp). Mae hyn yn sicrhau bod synau cefndir ddim yn tarfu ar bawb sy'n cymryd rhan.
- Bydd yr hyfforddwr yn amlinellu unrhyw reolau cyffredinol eraill ynghylch ymddygiad ar-lein ar ddechrau'r sesiwn.
- Bydd yr hyfforddwr yn esbonio sut y bydd pawb yn cyflwyno'i gilydd naill ai ar lafar neu drwy'r cyfleuster 'chat'.
- Mae'n bwysig eich bod chi'n 'ymuno'. Mae bod yn weithredol yn hyn o beth yn hanfodol i brofiad dysgu llwyddiannus.

- Defnyddiwch y blwch sgwrs neu'r swyddogaeth 'Codi Llaw' i ofyn unrhyw gwestiynau i'r hyfforddwr.
- Bydd tystysgrifau electronig yn cael eu hanfon drwy e-bost at y rheiny sydd wedi cymryd rhan ar ôl i werthusiad wedi'i gwblhau ddod i law. Bydd y gwerthusiad yn cael ei anfon at bawb sydd wedi cymryd rhan yn y sesiwn.

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Epilepsi | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf | 10.00am - 2.00pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |
| **Amcanion:**<br>Yn dilyn yr hyfforddiant, byddwch chi'n:<br>• Meddu ar wybodaeth am y mathau gwahanol o strociau epileptig<br>• Gallu adnabod a disgrifio ffit epileptig tonig/clonig<br>• Gallu disgrifio egwyddorion rheoli strôc epileptig<br>• Gallu disgrifio effaith epilepsi ar ffordd o fyw<br>• Gallu disgrifio'r gwahaniaeth rhwng statws epileptig a ffitiau cyfresol<br>**Bydd angen potel ddŵr eich hunain arnoch chi, a chwpan/llestr er mwyn ymarfer gweinyddu buccal midazolam yn ystod yr hyfforddiant.** | | |
| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Dyddi** |

| | | **adCau** |
|---|---|---|
| 26/04/2024 | Tŷ Elái, Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf, Tonypandy, CF40 1NY - Ystafell 1 | Dd/B |
| 26/06/2024 | Canolfan Hamdden Sobell, Yr Ynys, Aberdâr CF44 7RP | 15/05/2024 |
| 09/09/2024 | Tŷ Elái, Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf, Tonypandy, CF40 1NY - Ystafell 1 | 29/07/2024 |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Dementia yng Nghyd-destun  Anableddau Dysgu | Tony Waters | 9.30am–12.00pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |
| **Amcanion:**<br><br>• Deall beth yw Dementia<br>• Deall nodweddion allweddol Anabledd Dysgu<br>• Deall effeithiau heneiddio 'normal'<br>• Deall diagnosis Dementia mewn pobl ag Anabledd Dysgu<br>• Ystyried yr effeith y mae Dementia yn ei chael ar berson sydd eisoes ag Anabledd Dysgu<br>• Archwilio strategaethau effeithiol i gynorthwyo person â dementia i fyw bywyd da | | |
| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Dyddiad Cau** |
| 30/04/2024 | MS TEAMS | Dd/B |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Cyfathrebu Cynhwysol | Carfan Therapi Iaith a Lleferydd | 9.30am - 15.30pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |

**Nod:**

Rhoi gwybodaeth i fynychwyr ynglŷn â Chyfathrebu Cynhwysol a gwybodaeth sy'n sail i roi cyfarwyddyd therapi lleferydd ac iaith a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith.

**Deilliannau dysgu:**

- Meddu ar well dealltwriaeth o gyfathrebu swyddogaethol, effeithiol a gwerthfawr
- Meddu ar well dealltwriaeth o'r gwahanol ddulliau o gyfathrebu effeithiol, y rhesymau dros eu defnyddio a'r cyfleoedd i'w harfer
- Dysgu rhagor am ddulliau gwahanol i gefnogi cyfathrebu a ffyrdd i'w defnyddio

Rhaid i bob aelod newydd o staff gael mynediad at hyfforddiant Cyfathrebu Cynhwysol wyneb yn wyneb. Bydd e-ddysgu ar gael i'w gwblhau ar ôl yr amser yma, y mae'n rhaid ei gwblhau bob blwyddyn.

| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Dyddiad Cau** |
|---|---|---|
| 10/05/2024 | Tŷ Elái, Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf, Tonypandy, CF40 1NY - Ystafell 2 | Dd/B |
| 20/09/2024 | Canolfan Hamdden Sobell, Yr Ynys, Aberdâr CF44 7RP | 16/08/2024 |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Bwyta ac Yfed â Chymorth | Carfan Therapi Iaith a Lleferydd | 9.30am - 2.00pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |

Codi ymwybyddiaeth o'r broses bwyta, yfed a llyncu. Anawsterau yn y broses a chanlyniadau posibl. Arferion diogel a strategaethau rheoli.

• Anatomi'r pen a'r gwddf a chamau llyncu arferol

• Beth sy'n gallu mynd o'i le wrth lyncu

• Pam mae ymyrraeth yn angenrheidiol

• Ansawdd bwydydd a diodydd gwahanol a pham mae angen i fwydydd a diodydd gael eu haddasu

• Ystyriaethau ymarferol ar gyfer bwyta ac yfed yn ddiogel

• Gweithio amlddisgyblaethol ac asesiadau risg

• Pryd a sut i atgyfeirio unigolyn at Wasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith

Bydd angen i aelodau newydd o staff gwblhau'r modiwl e-ddysgu Lefel 1, gan gynnwys holiadur ar ôl dilyn yr hyfforddiant cyn mynychu'r cwrs yma. Argymhellir cynnal yr hyfforddiant wyneb yn wyneb yma bob tair blynedd, neu yng nghynt yn ôl disgresiwn y rheolwr. Er mwyn cynnal gwybodaeth, argymhellir bod staff yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu Lefel 1 a 2 fel sesiwn gloywi bob blwyddyn.

| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Dyddiad Cau** |
|---|---|---|
| 03/06/2024 | Tŷ Elái, Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf, Tonypandy, CF40 1NY - Ystafell 1 | 07/05/2024 |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth - ASD Lefel 1 yn flaenorol | Helen Robinson | 9:30am - 4.30pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |

Nodau

Mae'r cwrs yma ar gyfer ymarferwyr sy'n gymharol newydd ym maes awtistiaeth, neu ar gyfer y rheiny sydd angen cwrs gloywi. Cewch ddysgu am gysyniadau sylfaenol a theorïau yn ymwneud ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth. Byddwch chi'n dysgu am syniad y sbectrwm awtistiaeth, ynghyd ag agweddau biolegol, seicolegol ac ymddygiadol yr anhwylder. Bydd dulliau ymarferol ochr yn ochr ag egwyddorion damcaniaethol yn rhan o'r cwrs. Dyma gwrs rhyngweithiol gyda chyfleoedd i gynnal trafodaethau a gofyn cwestiynau.

Ar ddiwedd y cwrs, byddwch chi'n gallu:

- Nodi prif nodweddion yr ymddygiad sy'n cael ei arddangos gan bobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth
- Deall y triad o ddiffygion
- Deall ystod y sbectrwm
- Gwerthfawrogi'r gwahaniaethau penodol o ran deall yr iaith sy'n cael ei defnyddio gyda phobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth
- Deall bod angen atgyfnerthu iaith lafar gydag adnoddau gweledol er mwyn helpu'r rheiny sydd ar y sbectrwm awtistiaeth i ddeall yn well
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd trefn reolaidd a natur ragweladwy i bobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth
- Deall cymhlethdod rhyngweithio cymdeithasol
- Gwerthfawrogi'r gwahaniaethau o ran synhwyrau sydd gan bobl ar y sbectrwm awtistiaeth

| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Dyddiad Cau** |
|---|---|---|
| 10/06/2024 | Tŷ Elái, Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf, Tonypandy, CF40 1NY - Ystafell 1 | 07/05/2024 |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Strategaethau Cymorth Gweledol (ASD Lefel 2 gynt) | Helen Robinson | 9:30am - 4.30pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |

**Nodau**

Mae'r cwrs yn cynnig syniadau ymarferol a thechnegau yn ymwneud â sut i ddatblygu strategaethau cymorth gweledol. Mae'r cynnwys wedi'i anelu at oedolion sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth.

Mae'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyfathrebu, hunan-reolaeth a chymorth gweithredol, ac yn ceisio atebion i anawsterau drwy drafodaethau a dangos enghreifftiau bywyd go iawn.

Erbyn diwedd y cwrs, byddwch chi'n gallu:

- Gwella lefelau cymryd rhan, annibynniaeth a chyfathrebu ar gyfer pobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth sy'n siarad a'r rheiny sy'n ddieiriau.
- Helpu'r person i ddeall y disgwyliadau
- Helpu'r person i wneud dysgu'n haws
- Helpu'r person i gyffredinoli
- Meithrin hunan-hyder

| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Dyddiad Cau** |
|---|---|---|
| 01/07/2024 | Tŷ Elái, Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf, Tonypandy, CF40 1NY - Ystafell 1 | 28/05/2024 |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Datblygu Sgriptiau Cymdeithasol gyda phobl sydd ag Awtistiaeth | Helen Robinson | 9:30am - 4.30pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |

**Nodau**

Mae'r cwrs yma'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chanfyddiadau cymdeithasol o bobl ag awtistiaeth. Yn rhan o'r cwrs bydd cyfle i ddeall pam y mae sgriptiau cymdeithasol yn gwella lefelau cymryd rhan, annibynniaeth a hyder yr unigolyn dan sylw mewn lleoliadau cymdeithasol pan maen nhw'n cael eu creu mewn ffordd effeithlon. Mae'n cynnig syniadau ymarferol a thechnegau ynghylch sut i greu sgriptiau cymdeithasol a fydd yn effeithio ar leihau ymddygiad heriol yr unigolyn.

Ar ddiwedd y cwrs, byddwch chi'n gallu gwneud y canlynol:

- Dysgu sut mae ymddygiad yn adlewyrchu camddealltwriaeth cymdeithasol o bobl ag awtistiaeth
- Deall beth yw sgript gymdeithasol a phryd i'w defnyddio
- Deall sut mae sgriptiau cymdeithasol yn gwella lefelau cymryd rhan, annibynniaeth a hyder mewn lleoliadau cymdeithasol
- Nodi'r gwahanol fathau o frawddegau a sut mae'r rhain yn cael dylanwad ar faint mae'r person yn ei ddeall
- Ysgrifennu sgriptiau cymdeithasol yn hyderus yn seiliedig ar asesiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

| Dyddiad | Lleoliad | Dyddiad Cau |
|---|---|---|
| 19/04/2024 | Tŷ Elái, Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf, Tonypandy, CF40 1NY - Ystafell 1 | Dd/B |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Ddiabetes | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf | 10.00am - 12.00pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |

**<u>Nodau ac Amcanion</u>**

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd modd i chi:

• Nodi'r mathau gwahanol o Ddiabetes

• Nodi anawsterau cyffredin o ran byw gyda Diabetes

• Nodi triniaethau cyffredin ar gyfer Diabetes

• Nodi'r gofynion dietegol sylfaenol ar gyfer pobl sydd â Diabetes.

| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Dyd** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| | | **di a d C a u** |
| 14/05/2024 | MS TEAM S | 1 6/ 0 4/ 2 0 2 4 |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

GWASANAETH DATBLYGU GWEITHLU GOFAL CYMDEITHASOL
CWM TAF
SOCIAL CARE WORKFORCE DEVELOPMENT SERVICE

un sector : un gweithlu • one sector : one workforce

# Gwybodaeth am Becynnau E-ddysgu

# Modiwl Hyfforddi Bwyta, Yfed a Llyncu; Ymwybyddiaeth Sylfaenol – Lefel1

**Ar gyfer pwy mae'r hyfforddiant yma?**

- Nod yr hyfforddiant yma yw darparu ***ymwybyddiaeth sylfaenol*** am broblemau bwyta, yfed a llyncu ac arfer da ar gyfer cefnogi pobl amser bwyd.
- Mae'r hyfforddiant yma wedi'i anelu at ***pob aelod*** o staff / teuluoedd / cynhalwyr sy'n cefnogi unrhyw un ag anabledd dysgu amser bwyd.
- **Os ydych chi'n gweithio gyda rhywun sydd â chanllawiau bwyta, yfed a llyncu proffesiynol ar waith**, yna ar ôl cwblhau'r hyfforddiant yma byddwch chi hefyd angen ***hyfforddiant ychwanegol***, ac mae modd i chi ofyn am yr hyfforddiant yma gan y Gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith (neu'r gweithiwr proffesiynol a ddarparodd y canllawiau).
- Bydd yr hyfforddiant yma'n cymryd tua 1 awr - 1.5 awr i'w gwblhau.

**Nodau'r Hyfforddiant:**

- Darparu cyfranogwyr gyda **dealltwriaeth sylfaenol** am y broses fwyta, yfed a llyncu arferol, a rhai o'r ffyrdd y mae modd i'r broses yma chwalu.
- Er mwyn galluogi cyfranogwyr i ddysgu rhai o **arwyddion a symptomau dysffagia**, a gwybod pryd i gyfeirio at Therapi Iaith a Lleferydd neu at weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol eraill.
- Rhoi trosolwg o'r hyn sy'n gwneud **profiad bwyta ac yfed da** ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

# Pecyn hyfforddi bwyta, yfed a llyncu;
# Lefel 2 - Menter Safoni Diet Dysffagia Rhyngwladol (IDDSI) - Addasu bwyd a diod

**Nodau**

- Darparu gwybodaeth am beth yw fframwaith IDDSI
- Darparu gwybodaeth am sut mae IDDSI yn disgrifio addasu ansawdd bwyd a diod.
- Galluogi cyfranogwyr i ddysgu am baratoi gweadau bwyd a diod IDDSI.
- Datblygu dealltwriaeth cyfranogwyr o arferion mwy diogel a strategaethau rheoli
- Bydd yr hyfforddiant yma'n cymryd tua 45 munud i'w gwblhau.

# Hyfforddiant Diogelu Oedolion Cwm Taf

Am ragor o wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd, ewch i:
http://www.cwmtafsafeguarding.org/adults/cwm-taf-mash/.

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Ymholiadau Adran 126 | I'w gadarnhau | 9:30am – 12.30pm |

Sesiwn wedi'i threfnu gan: Jillian Davies

Lluniaeth ar gael: te a choffi *(mae hwn yn gwrs diwrnod llawn felly cofiwch ddod â phecyn bwyd)*.

Adran 126
Nodau

- Sicrhau bod gan ymarferwyr sy'n cynnal ymchwiliad Diogelu ffurfiol y sgiliau sydd eu hangen i gasglu a gwerthuso tystiolaeth, paratoi adroddiadau a chyflwyno argymhellion sy'n llywio prosesau dod i benderfyniadau aml-asiantaeth mewn perthynas â Diogelu. Sicrhau hefyd bod y sgiliau yma'n unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Ar ôl cwblhau'r cwrs, bydd cyfranogwyr yn gallu dangos eu bod yn deall y canlynol:

- Cwmpas a diben egluro a chadarnhau gwybodaeth yn gynnar
- Cwmpas a diben ymholiadau cychwynnol
- Pa wybodaeth mae ei hangen i gynnal ymholiadau cychwynnol
- Cwmpas a diben Ymchwiliad i Achos sydd ddim yn Drosedd Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA)
- Sut i gynllunio A chynnal Ymchwiliad Diogelu
- Pwysigrwydd casglu, cadw a pheidio â llygru tystiolaeth;
- Sgiliau cyfweld a recordio priodol
- Sut i werthuso tystiolaeth a chynnal adroddiad ar ddarganfyddiadau
- Diben Cyfarfod Strategaeth derfynol / Cynhadledd Achos ar hyn sydd angen ei gyflawni

GWIRIO GWYBODAETH: Mae rhaid bod y cyfranogwyr wedi cwblhau lefel 2 a'u bod yn meddu ar ddealltwriaeth o arwyddion a symptomau cam-drin

| **Dyddiad** | **Lleoliad** |
|---|---|
| 12/09/2024 | Teams |

Pe hoffech chi ofyn cwestiwn mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch: jillian.davies@rctcbc.gov.uk.Dylid anfon enwebiadau drwy e-bost at: Lyndsey.Foley@rctcbc.gov.uk

***Pe hoffech chi ofyn cwestiwn*** *mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:* Jillian.Davies@rctcbc.gov.uk

*Anfonwch enwebiadau at:* Lyndsey.Foley@rctcbc.gov.uk

| Pwnc | Hyfforddwr/wraig | Hyd |
|---|---|---|
| **Cwrs gloywi Diogelu ar gyfer STAFF GOFAL UNIONGYRCHOL Grŵp B (Lefel 2 yn flaenorol)** | Paul Aubrey<br>Dawn Moulden<br>Mandy Lewis | 9:30am – 12:30pm<br><br>*(cyrhaeddwch o leiaf 15 munud cyn yr amser yma er mwyn cael paned a chofrestru)*. |
| Sesiwn wedi'i threfnu gan Jillian Davies | | |
| Lluniaeth ysgafn ar gael: | | |
| **Cynulleidfa Darged**: Gweithwyr gofal uniongyrchol sydd eisoes wedi cwblhau cymhwyster Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed lefel 2 neu gymhwyster Diogelu lefel 2 cyn 2018. | | |

| **Nod:**<br><br>• Gwybod eich rôl eich hun mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n wynebu risg o niwed, cam-drin neu esgeulustod;<br><br>• Deall sut mae unigolion yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod;<br><br>• Gwybod sut i adnabod gwahanol fathau o niwed, cam-drin ac esgeulustod yn y gweithle. | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Lleoliad** |
| 26/09/2024 | I'w gadarnhau |

***Pe hoffech chi ofyn cwestiwn*** *mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:* Jillian.Davies@rctcbc.gov.uk

*Anfonwch enwebiadau at:* Lyndsey.Foley@rctcbc.gov.uk

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Rolau a chyfrifoldebau diogelu sy'n canolbwyntio ar unigolion a'r unigolyn – Lefel 3 | Grŵp Diogelu Hyfforddiant Cwm Taf | 9:30am – 4:30 p.m.<br><br>*(cyrhaeddwch o leiaf 15 munud cyn yr amser yma er mwyn cael paned a chofrestru).* |
| Sesiwn wedi'i threfnu gan: Jillian Davies | | |
| Lluniaeth ar gael: *(dyma gwrs diwrnod llawn felly cofiwch ddod â phecyn bwyd)* | | |

**Cynulleidfa Darged**: Dim ond y rheiny sydd mewn rôl debyg i'r rhai isod ddylai ddod i'r hyfforddiant yma. Mae'r lefel yma o hyfforddiant yn debygol o gynnwys: Rheolwyr Cartrefi Gofal i Oedolion a'u Dirprwyon; Rheolwyr Gofal Cartref a'u Dirprwyon; Swyddogion yr Heddlu, Gweithwyr Cymdeithasol, Swyddogion Gofal Dydd, Rheolwyr Wardiau, Prif Nyrsys, Nyrsys Staff, Nyrsys Cymunedol, Staff Arolygu, Rheolwyr Canol ac aelodau priodol eraill o staff sy'n gyfrifol am ymateb i bryderon sydd wedi'u nodi.

**Amcanion:**
Galluogi Rheolwyr-Ddarparwyr i feithrin gwybodaeth a sgiliau er mwyn darparu gwasanaethau sy'n diogelu oedolion yn unol â chanllawiau Cenedlaethol a'r arfer gorau.

**Deilliannau dysgu:**

- Dangos dealltwriaeth o rôl eich sefydliad yn y broses Ddiogelu

- Dangos dealltwriaeth o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun yng nghyd-destun proses Ddiogelu eich sefydliad:
  - ***ymateb i rybudd ynglŷn â Diogelu yn briodol***
  - ***egluro gwybodaeth***
  - ***rheoli risgiau uniongyrchol***
  - ***llenwi ffurflen A1 yn gywir (neu ffurflen PPN ar gyfer Swyddogion yr Heddlu)***

- Nodi problemau sy'n ymwneud â gallu a chynnwys ac sy'n berthnasol i'r broses Ddiogelu
- Arddangos dealltwriaeth o'ch rôl o ran casglu gwybodaeth. Bydd hyn yn helpu'r broses o wneud penderfyniad;
- Nodi'r hyn y dylech chi ei wneud wrth gadw tystiolaeth
- Dangos ymwybyddiaeth o gamau'r broses ddiogelu a'r goblygiadau ar eich cyfer chi a/neu eich asiantaethau.

***GWIRIO GWYBODAETH: Mae rhaid bod y cyfranogwyr wedi cwblhau lefel 2 a'u bod yn meddu ar ddealltwriaeth o arwyddion a symptomau cam-drin***

| **Dyddiad** | **Lleoliad** |
|---|---|
| I'w gadarnhau | ***I'w gadarnhau*** |

***Pe hoffech chi ofyn cwestiwn*** *mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:* Jillian.Davies@rctcbc.gov.uk

*Anfonwch enwebiadau at:* Lyndsey.Foley@rctcbc.gov.uk

# Gwasanaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf
## Ffurflen Gofrestru am Gwrs Hyfforddiant

# Cwm Taf Social Care Workforce Development Service
## Training Course Registration Form

| | |
|---|---|
| **Teitl y cwrs / Course Title:** | |
| **Dyddiad / Date:** | |
| **Lleoliad / Venue:** | |

| | |
|---|---|
| **Er mwyn sicrhau bod y rheiny sy'n mynd ar gwrs yn cael eu cofnodi'n gywir, mae angen cyfeirnod unigryw arnon ni. Ar gyfer staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, gallwch ddefnyddio'ch cyfeirnod tâl 6 rhif. Ar gyfer asiantaethau eraill, rhowch eich Rhif Yswiriant Gwladol neu ddyddiad geni. Bydd y manylion yma'n cael eu cadw yn ein cronfa ddata ddiogel, a fyddan nhw ddim yn cael eu rhannu ag asiantaethau eraill, ac eithrio'ch cyflogwr/rheolwr llinell presennol.** | **Er mwyn sicrhau bod y rheiny sy'n mynd ar gwrs yn cael eu cofnodi'n gywir, mae angen cyfeirnod unigryw arnon ni. Ar gyfer staff CBSRhCT, gallwch ddefnyddio'ch cyfeirnod tâl 6 rhif. Ar gyfer asiantaethau eraill, rhowch eich Rhif Yswiriant Gwladol neu ddyddiad geni. These details will be stored on our secure database and not shared with any other agencies, other than you current employer / line manager.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw(au) cyntaf/ Forename** | | **Cyfenw / Surname** | |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Rhif Staff / RCT CBC Staff Number:** | | **Rhif Yswiriant Gwladol neu ddyddiad geni / National Insurance Number or DOB** | |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd / Job Title** | |
| **Cyflogwr / Employer**<br>Os ydych chi'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, noder ym mha adran rydych chi'n gweithio /<br>If RCTCBC please state which division you are employed in. | |
| **Cyfeiriad ar gyfer Gohebiaeth / Address for Correspondence** | |
| **E-bost / E-mail:** | |
| **Rhif Ffôn / Telephone No:** | |
| **Gofynion Arbennig / Special Requirements** | |

| | |
|---|---|
| **Llofnod / Signature** | |
| **Llofnod y Rheolwr Llinell / Line Manager's Signature** | |

**Anfonwch yn ôl i / Please return to**

E-bost / e-mail: hyfforddiantgofalcymdeithasol@rhondda-cynon-taf.gov.uk / socialcaretraining@rctcbc.gov.uk.